Cyfres Llanbedr | MAI, 1933. | Cyf. 23. Rhif 5.

Profwch bob peth | Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. | Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y. Golygydd. | Y. Parch T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

"GWELL YW ENW DA"
(NEU '68).
YMSON: "RHYFEDDODAU'R CREAD."
GWYR PENTYRCH.
MARWGOFION.
NODION YR EGLWYSI.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

LLYFR GWERTH EI FEDDU.

Y mae ychydig Gopiau o

"GWILYM MARLES"

YNG NGHYFRES Y FIL (Syr O. M. Edwards)

I'W CAEL AR HYN O BRYD.

Pris 1s. 6c. (drwy'r Post, 1s. 8c.)

Anfoner at

J. D. LEWIS, SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,'
LLANDYSUL.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

CYFRES LLANBEDR. MAI, 1933. CYF. XXXIII. RHIF 5.

"Gwell yw Enw Da" (neu '68).

PENNOD I.

"IE, FEL CI!"

Adroddid y frawddeg fel y pader ar ôl y person gan drwp o fenywod yn eu dillad Sul ganol yr wythnos, a hawdd casglu oddiwrth eu dillad a'u golwg drist eu bod yn dychwelyd o angladd. Nid oedd ond angladd plentyn bach tri mis oed, yn rhy ifanc i beri dim ond hiraeth melys i'w fam, ac eto yr oedd rhywbeth eithriadol wedi digwydd cyn aflonyddu ar rai cynefin ag angladdau. Yr un oedd testun y siarad bob cam adref.

Ni fedrid ymwahanu heb gael rhyw farn ar y mater. Yr oedd yn ormod o broblem i'r rhai a fedrai dorri pob dadl. Nid oedd dim amdani ond troi i Benrhiw at Simon Crydd, gŵr canol oed, a ystyrid yn yr ardal yn ŵr lled hirben. Gwyddent o leiaf y gwrandawai Simon ar eu cwyn. Yr oedd yn wrandawr da, heb ddywedyd rhyw lawer, ond o gael ei farn, gallasech ddibynnu arni.

"Pwy sens yw hi", meddai Nanni Wil, "claddu'r plentyn fel claddu ci".

Cytunai pob un o'r cwmni â hi, gan ddwedyd gyda syndod i'w ryfeddu,—"Ie, fel ci!"

Edrychai Simon yn wyneb Nanni ar hanner tynnu'r pwyntredyn, a rhyw anghredu yn ei drem, gan ofyn ag amau yn ei lais "FEL CI?"

"Ie," meddai'r cwmni ag un llais,—"FEL CI".

Yr oedd aros i wrando yn beth newydd yn hanes y crydd. Pwythai ef fynychaf beth bynnag y siarad. Daliodd Nanni ar ei chyfleu.

"Welais i fath beth erioed o'r blaen—naddo, wir, erioed o'r blaen", meddai a rhyw leisiau llefain yn ei llais crâs, gan sychu ei llygaid sych ag ymyl ei ffedog blod.

perigl ei groesi : ofer pob rheswm. Llwybr tarw oedd ei lwybr, a phen draw pob dadl a ffrae oedd *shalangs*. Hen leban corffog ydoedd, ac un olwg arno yn ddigon i beri braw a dychryn ar y dewraf. Dyn bach eiddil oedd Pryfoc, a'i lygaid a'i drem fel y cadno. Ni wastraffai eiriau, ond yr oedd rhyw wên o wawd yn chwarae byth a beunydd ar hyd ei wyneb. Rhyw frathu y byddai Pryfoc, a duach y clais drannoeth wedi brath Pryfoc na dyrnod Dic Shalangs.

Yn rwm y clwb y bore cynt yr oedd y Boes.

" Rhyw fabi'i fam fel yna i ordro'r clwb ! Does dim sens ynddo ", ebai Wil Dal, a chesglid mai Ianto Mali oedd dan y gyrdd.

Ni ddywedodd y Sâr Segur ddim ; " *grondo own i* ", chwedl yntau.

Ni fedrai Dic siarad. Nid oedd yn ei lein. Ni fedrai roi *Shalangs* i lanc deuddeg oed. Buasai yn ormod o Ddafydd a Goliath. Ni ddoi dim ohono ychwaith ond testun chwerthin. Gwyddai Dic hynny'n burion, a chnoai'r baco main yn ffyrnicach a'i ddannedd melyn, dyna i gyd. Am Pryfoc ar y llaw arall, yr oedd yn ei elfen. Chwareuai'i lygaid yn ei ben, ac o gredu mewn datblygiad, rhaid credu fod Pryfoc wedi aros ar y llwybr yn gadno. Yr oedd ei wên a mwy o wawd ynddi, yn fwy pryfoclyd dyna i gyd. Ysgyrnygai'r lleill eu dannedd. Nid felly Pryfoc. Ni wnai ond dal i wenu. Yr oedd cynllun yn ei ben a chynllwyn yn ei galon. Sisialodd ei gyfarwyddiadau yng nghlustiau'r Boes ac aeth i'w ffordd dan wenu.

Yr oedd pethau wedi mynd yn anniben yn y Clwb yr ailwaith mewn llai na blwyddyn. Penderfynwyd apwyntio ysgrifennydd i'r Clwb. Bodlonodd y Boes. Pryfoc oedd wedi cymryd y gofal a'r arian ta waeth. Ni freuddwydiasant y buasai neb ond Pryfoc yn cynnig amdani, ond dyma Ianto Mali yn mynd a'r swydd dan eu dwylo. Yr oedd yn *fwy* a *llai* o scoler na Phryfoc.

Chwarddai'r Boes ar y dechreu, ond erbyn hyn yr oeddent yn malu ewyn ac yn ysgyrnygo dannedd.

Bellach yr oedd yr etholiad drosodd, a'r Boes a Ianto Mali yn ceisio'i hesbonio.

Am unwaith cyn yr etholiad, bu'r Sâr Segur yn brysur ddigon. a gweithiai a'r drws ynghau. Pan agorwyd drws y Clwb yr oedd bocs newydd ar gadair o flaen y tân. Wil Dal oedd y returning officer, wedi'i apwyntio gan y Boes. Nid oedd farc na stamp ar bapur neb. Ni freuddwydiai neb am dwyll. Dim ond dau enw—enw Ianto Mali a Phryfoc wedi'u hysgrifennu gan y Boes yn dra thebig i goesau brain, chwedl yr hen bobl.

Nid oedd dim amdani ond rhoi croes, plygu'r papur a'i osod yn y bocs. Doi'r aelodau'n gyson, gyson, a distaw. Pob un wedi gwisgo'i ddillad Sul, ac yn gwybod ei feddwl ei hun. Synnid nad oedd Pryfoc i'w weled yn unman, ac fod Wil Dal yn rhoi cnoc ar y ford am bob papur a ae i'r bocs.

Yr oedd yr etholiad drosodd : dim ond cyfrif y pleidleisiau. Yr oedd y distawrwydd wedi mynd, a dim ond clebar a berw ymhob man, ac fe ddaeth Pryfoc o rywle heb yn wybod i neb. Ni feddyliodd neb lawer. Nid oedd amser, ond yr oedd y wên yn fwy maleisus nag arfer, dyna i gyd. Yn y llwydolau gallasech feddwl mai pen a llygaid cadno a welech, a dyna oedd—cadno dwycoes. Yr oedd yn berffaith dawel, yn berffaith sicr o'r result cyn dechrau cyfrif, a gallasai fod. Nid oedd ond un yn y rhedeg a Phryfoc oedd hwnnw. 'Roedd pawb yn fud. Medrech deimlo'r distawrwydd. Nid edrychai neb i wyneb ei gymydog rhag ofn canfod y twyll yno. Nid oedd raid iddynt.

Troes pawb tuag adref fel ar ddiwrnod angladd cyfaill, a'r Boes yn llongyfarch Pryfoc, a haeddai hynny.

Wedi ymadael o'r aelodau i gyd a chau drws y clwb, edrychodd y Boes ym myw llygaid ei gilydd. Nid oeddent yn ei deall hi. Nid oedd neb ond Pryfoc.

" Y mae rhyw fysteri i mi yn y fotio heno. Nid wyf yn deall. Yr oedd pawb yn siarad dros Ianto Mali, ac yn fotio dros Pryfoc," meddai Dic. Dyn syml ydoedd Dic. Yr oedd yn onest yn ei ffordd, a chwarae teg iddo. Gwenai Pryfoc.

" Paham y ceisiaist gennyf gnocio'r ford bob tro yr ai fote i'r bocs ? " gofynnai Wil Dal.

Gwenai Pryfoc.

" Beth oedd amcan y ddau focs cyn debyced i'w gilydd a dau efell fel na fedrai dewin dynnu'r naill oddiwrth y llall ? " oedd cwestiwn y Sâr Segur. Yr oedd syndod yn nhrem y Boes. ond gwenai Pryfoc. Ymhen ennyd ciliodd y wên o wyneb Pryfoc, a dywedodd, " Nid myfi a enillodd ond *diawlineb*. Ffârs oedd y fotio. Ni chefais i fote am bob pump i Ianto Mali. Gwyddwn hynny ar y dechrau, ac nid oedd dim amdani ond *diawlineb*. Yr oeddwn yn y rwm nesaf ac am bob cnoc a roe Wil ar y ford, ae fote i focs, neu yn hytrach i ddau focs."

Deallasant y cnocio a'r ddau focs.

" A chofiwch, Boes," meddai Pryfoc, " Fy Mocs i a Gowntiwyd Heno ". Chwarddai'r Boes yn galonnog, a gwenai Pryfoc. Ni bu'r chwerthin yn hir, oherwydd er na afael yr Un Drwg yn rhyw dyn iawn ar y dechrau, y mae'n sicr o'i afael, a chynt neu hwyrach fe gwyd ei blant yn ddigon uchel fel y gwel y byd hwynt. Dyna fu hanes y Boes ac fel haid o betris ciliasant o'r ardal gyda'i gilydd wedi tro trwstan.

Nid oedd Ianto Mali yn rhyw fodlon iawn ar y fotio, ac am reswm da fel y credai ef. Yr oedd ei ffydd yn ei gyd-ddyn wedi'i siglo, a rhywun wedi tynnu'r llen yn ôl er iddo weld ac adnabod dyn. Yr oedd y siom wedi'i glwyfo, a'i fam yn methu dal dani.

" Colli ? Ie, colli a cholli ofnadwy," meddai Ianto wrth ei gyfaill o brentis crydd. " Bum ym Mhenrhiw yn edrych amdanat. Fe

garwn iti ddod i gysuro mam. Y mae'n fodlon imi fynd i Lanfair ond y mae'r mynd fel hoelen yn ei choffin. Dere, fe fedri di ddweud rhywbeth a fydd yn sicr o godi'i chalon. Ni feddyliais i y buasai'n ei chymryd gymaint ynddi."

Aeth y ddau ffrind gan gerdded yn ddistaw i gyfeiriad Blaentir, a phob un ohonynt yn magu ei ofid ei hun.

"Ie, Gwilym, fel yna y mae hi," meddai Mali gan droi oddiwrth y golau rhag i Ianto weld y deigryn. Yr oedd y prentis yntau yn teimlo'n falch o glywed Gwilym yn hytrach na Wil Crydd byth a beunydd. Nid oedd ganddo serch hynny yr un esboniad i'w gynnig. Nid oedd yn ddigon hen i wybod am droion amheus bywyd. Beiai y natur ddynol, ac yr oedd y tro yn ddadl newydd o blaid y pechod gwreiddiol. Yr oedd, efallai, ond nid yn y ffordd y credai ef.

O dipyn i beth canfu calon mam a oedd ynddi fod ei chysurwr a'i galon ei hun yn gwaedu, ac o ganfod hyn nid hir y bu y wên cyn ymlid y deigryn o'i llygad.

"Ble buoch chwi'ch dau cyd heno ?" gofynnai.

(*I'w pharhau*).

G.

Ymson : "Rhyfeddodau'r Cread."

NID wyf wyddonwr ; ac ni wn fawr am wyddoniaeth—dim rhagor nag a loffaf o feysydd llafur dynion a fedr siarad gydag awdurdod ar y materion yr ymdriniant a hwy. Eithr wedi imi gyfaddef fy anwybodaeth, dywedaf ymhellach y medd gwyddor imi, cyn belled ag y medraf ei dilyn, fesur mawr o ddiddordeb, hyd yn oed o swyn. Yn hyn, mi dybiaf, nid eithriad mohonof ; credaf fod y diddordeb mewn gwyddor yn beth mwy cyffredinol nag y'n tueddir yn aml i feddwl. Gwelais sylw'n ddiweddar bod llyfrau Jeans ac eraill yn lyfrau a mynd anghyffredin arnynt—"best sellers" y'u gelwir. Pa ryfedd ? Oblegid meddiennir y darllenydd o honynt gan deimlad tebig i'r hyn a gynhyrchir ynddo (dyweder) gan y llyfr hynod a elwir "The Arabian Nights" ; gyda hyn o wahaniaeth—mai ffrwyth dychymyg byw iawn yw'r olaf, a ffrwyth ymchwil a gwybodaeth yw'r cyntaf

Perwyd imi ddechreu'r llith fel hyn gan a ganlyn : yn ystod y misoedd diweddaf gwelais hysbysiadau am lyfr Cymraeg o'r un natur a llyfrau'r awdur a ennwyd uchod gan un o broffeswyr Coleg Aberystwyth—Dr. Gwilym Owen. "Rhyfeddodau'r Cread" y'i gelwir. Gwelais, hefyd, aml i adolygiad o hono a'i canmolai hyd y cymylau. Creodd hyn ynof awydd cryf i sicrhau copi o hono. A mi'n rhodio'n hamddenol pwy ddydd hyd un o strydoedd un

o drefi Ceredigion, deuthum gyferbyn â siop lyfrau ; ac o daflu golwg tros gynnwys y ffenestr, syrthiodd fy llygaid ar lyfr Dr. Owen. Gan fod pris y llyfr yn fy llogell, ni fu ond mater o ychydig eiliadau cyn i'r ddau, y llyfr a'r hanner coron, newid eu lle—y llyfr yn fy llogell i, a'r hanner coron yn eiddo'r llyfrwerthwr.

Wedi imi gyrraedd gartref, ni bûm lonydd cyn imi ei agor a'i ddarllen. Yn arwynebol ddigon, mi gyfaddef, y'i darllenais y tro cyntaf ; eithr nid llyfr i'w ddarllen unwaith mo hono ; deil ei ddiddordeb a chynhydda ei flâs po fwyaf y'i darllenir. A buan y gwelais nad defnyddio gormodiaeth a wnai'r adolygwyr yn eu canmoliaeth o hono. Nid yn wastad y gellir gosod ymddiriedaeth lwyr mewn adolygiadau o lyfrau, fel y gŵyr pob prynwr llyfrau trwy brofiad ; eithr y mae eithriadau.

Rhennir y llyfr i dair rhan. Dyma grynhodeb o gynnwys y rhan gyntaf : Y Mawr a'r Bach yn y Greadigaeth ; Geni'r Haul a'r Ddaear a'r Lleuad ; Mater—beth ydyw ? Ymdrinir a'r materion hyn mewn saith o benodau. A chyn mynd ymhellach sylwaf—y synnir y darllenydd gan symlder yr ymdriniaeth—mor syml, fel nad anodd ydyw dilyn yr awdur fel y symud ymlaen o gam i gam, o ryfeddod i ryfeddod. Ie, o ryfeddod i ryfeddod. Onid gyda phriodoldeb y rhoddes yr awdur iddo'r enw—" Rhyfeddodau'r Cread " ?

Sylwer, er enghraifft, ar a ddywed am faint y cyfanfyd. Mor annirnadwy o fawr ydyw, hwnt i fedr un meddwl dynol i'w amgyffred. Ofer yw defnyddio'r gair milltiroedd pan geisir darlunio pellter y cyrff wybrennol o'n daear ni. Sut, ynteu, y mesurir y pellter ? Atebed yr awdur : " fe ŵyr pawb fod goleuni'n gwibio 186,000 o filltiroedd (seithwaith o amgylch y ddaear) mewn *un eiliad*, ac felly mewn blwyddyn fe gyflawna'r daith aruthrol o chwe miliwn o filiynau (6,000,000,000,000) o filltiroedd. A dyna yw'r " llathen-fesur " a ddefnyddir gan seryddwyr—" blwyddyn oleuni ' (*light-year*)."

Cymer goleuni, felly, rhyw wyth munud i deithio rhwng yr Haul a'r Ddaear (oddeutu 93 miliwn o filtroedd). Eithr pellter bach iawn yw hwn o'i gymharu â'r pellterau rhyngom a sêr eraill yn yr eangderau. Byrhaf a ddywed yr awdur ar y mater hwn fel hyn : cymer goleuni bedair blynedd i deithio'r pellter i'r *Proxima Centauri* ; i *Sirius*, naw mlynedd ; yr *Arth Fawr*, pedwar ugain mlynedd ; y *Pleiades*, tri chant a hanner ; *Orion*, chwe chan mlynedd. " Y profion cryf," fe ychwanega, " fod rhai o'r sêr-glystyrau 20,000, ie, 200,000 o ' flynyddoedd-goleuni ' oddi wrthym." Pa ryfedd ydyw y'i cymhellir i ddywedyd, " Yn sicr, ni ellir meddwl yn ystyriol uwch ben y ffeithiau hyn heb gael ein gorchfygu gan wylder a pharchedig ofn."

Pe gofynnid inni pa un yw'r mwyaf o'r cyrff wybrennol, diau yr atebem,—yr Haul ; yna, y Lleuad ; a deuai'r sêr eraill i'r rhestr yn ol eu disgleirdeb. Eithr sylwn : " Awn allan ar noson glir,

serennog, a chodwn ein golygon tua'r nen. Gwelwn ruban o oleuni gwan yn croesi'r ffurfafen fel gwregys—y Llwybr Llaethog—neu fel y'i gelwir gan seryddwyr, y Sistem Alactig. Yr hyn yw y Llwybr Llaethog yw nifer enfawr—miloedd o filiynnau—o heuliau, y rhan fwyaf o honynt yn tra rhagori ar ein haul ni mewn gogoniant ". Da a fyddai inni aros yn fyfyrgar uwch ben yr uchod, a cheisio o honom ystyried o ddifrif, hyd y medrwn, beth a olyga.

Rhaid symud ymlaen i'r drydedd adran—" Gwyddoniaeth a Chrefydd ". Beth yw effeithiau gwyddor ar grefydd ? Beth yw'r berthynas iawn rhyngddynt ? Cwestiynnau yw'r rhain a'u tebig a fu'n achos brwydro caled a ffyrnig trwy gydol yr hanner olaf o'r ganrif ddiweddaf. Ymosodai gwyddonwyr ar grefydd a chrefyddwyr ; ac ymosodai crefyddwyr hwythau ar wyddonwyr a gwyddoniaeth. Honni a wnai'r cyntaf bod gwyddoniaeth yn disodli crefydd, yn symud ei seiliau ; a chyhoeddai diwinyddion eu hanathema uwch ben gwyddonwyr oblegid beiddio o honynt daflu amheuaeth ar a dybid yn wirioneddau hanfodol crefydd. Ni wnai un o'r ddwyblaid un ymgais i ddeall safle'r llall. Ac ymddangosai weithiau fel pe bai y fuddugoliaeth i droi yn ffafr honiadau'r gwyddonwyr, ac nad oedd yn aros ond megis amser byr iawn cyn y diflannai crefydd yn llwyr oddiar y ddaear.

Trôdd y fantol yn raddol, modd bynnag, a daeth gwell ysbryd i fod. Bellach cydnabyddir mai cyd-chwilwyr am y gwirionedd ydyw gwyddonwyr a chrefyddwyr i fod, ac mai llaw-forynion i'w gilydd y dylai gwyddoniaeth a chrefydd fod. Dyna safle'r awdur yn ei bennod olaf—" Gwyddoniaeth a Chrefydd ". Dywed y dylid " gwahaniaethu'n ofalus rhwng *diwinyddiaeth* a *chrefydd* " ; a dyfynna eiriau'r gwyddonwr Saesneg enwog, Julian Huxley, fel darluniad o'r osgedd meddwl iawn ynglyn â'r mater : " Fe all gwyddoniaeth ddarostwng cyfundrefnau neilltuol diwinyddiaeth. Fe all ddymchwelyd hyd yn oed fath arbennig o grefydd os myn y grefydd honno wadu dilysrwydd gwybodaeth wyddonol, ond ni all ddileu crefydd am na all ladd yr ysbryd crefyddol, oblegid y mae'r ysbryd crefyddol yn gymaint rhan o'r natur ddynol ag yw'r ysbryd gwyddonol." Nid yw'n bosibl darlunio'r mater yn well na hyn.

Beth, tybed, a fydd rai o effeithiau'r wybodaeth newydd ar ddyfodol crefydd ? Cwestiwn anodd i'w ateb yw hwn ; eithr tra sicr ydyw y dygir i fod yn raddol well a theilyngach syniad am Dduw a dyn. Amrwd i'r eithaf, rhaid inni gydnabod, ydyw'r syniad cyffredin am Dduw. Egyr y gosodiad hwn, fodd bynnag, y drws i faes rhy eang imi ymhelaethu arno nawr.

O bydd i a ysgrifennwyd greu yn y darllenydd awydd i ddod i adnabyddiaeth lwyrach o gynnwys y llyfr a fu tan sylw, etyb ei ddiben. O'i ddarllen, ni all lai na bod yn agorydd llygaid iddo i'w alluogi i weld " Rhyfeddodau'r Cread ".

D.E.

Gwyr Pentyrch.

II.—ATLAS.

DDOE yr oeddwn ar y stryd, ac yn ddifeddwl dechreuais sylwi ar y fforddolion a oedd yn gwau drwy'i gilydd yn brysur, brysur. Ni fedrwn lai na chwerthin o weld mor debig i ddefaid ydyw dynion. O bydd i ddafad neidio, neidia pobun yn ei thro yn yr un man mewn cydymdeimlad, Dywedir bod y gorfod wedi'i blannu ynddynt, a hwythau yn rhedeg yn wyllt rhag rhyw fwystfil rheibus. Ni wn pryd y rhowd y gorfod ynnom ni i wneud yr un peth ar y stryd ond fe'i gwnawn. Nid ar unwaith y deellais. Yr oent yn cerdded yn brysur, rhai mewn ymgom a'i gilydd, ac eto ger y fan yn ddifeddwl troent i'r stryd rhag cerdded dan ysgol. Ni chredaf y medrai nemor un esbonio pam, ond yr oent yn gwneud, a hynny yn ddifeddwl.

Er ei ddysg a'i grefydd a phopeth y mae dyn yn ofergoelus. Y mae cath ddu neu gân ceiliog gwyn yn nyfnder nos yn ddigon i'w wylltu. Pa sawl un ohonom na sylwa ar biod neu rywbeth penchwiban arall ar ei daith ?

Nid yr un ofergoel y sydd gennym bob yr un, ac er fy mod yn chwerthin at ofergoel arall, y mae gennyf fy eiddo fy hun yn barchus ddigon. Slawer dydd yn yr ysgol yr oedd gâs gennyf un llyfr darllain, a hyd y cofiaf yr un *tribe* oedd gan bob dosbarth—Yr Atlas Readers. Holais fy hunan droion paham y'i cashawn a châs perffaith, heb fod gennyf amgenach rheswm na châr plentyn ysgol un llyfr darllain o galon dro hir. Ni fedrwn fodloni fy hun fy mod yn fwy am chwarae na'r mwyafrif o blant. Ni fedrwn fod yn ofergoelus am na wyddwn ystyr y gair y pryd hwnnw o leiaf, er a dweyd y gwir ni charaf glywed ceiliog o unrhyw liw yn canu yn nyfnder nos. Hyd y gwn, ni welais gannwyll gorff na thoilu, a'r peth mwyaf ofnadwy a welais oedd cropyn eithin yn siglo, a'm meddwl ehedog innau yn gwneud lleidr penffordd neu fwci ohono.

Nid oedd y gair Tabŵ yn y ffashwn. Gwyddwn yn fore fod y ffigwr 3 yn gysegredig iawn rywsut ond heb wybod paham. Nid yw y rheswm yn rhyw glir iawn eto ta waeth. Nid yr un ffigyrau y sy'n gysegredig neu arall ymhob ardal a gwlad. Nid wyf yn sicr nad yw y ffigwr 5 yn tabŵ mewn ambell ardal. Nid yw hynyna ond gyda llaw.

Am flynyddoedd bu yr Atlas Reader yma yn fwgan i mi. Breuddwydiwn y nos am y Gŵr a gariai y byd ar ei ysgwydd, a disgwyliwn weld rhywun yn cymryd y baich oddiarno, neu ei weld ef ei hun yn rhoi ei faich i lawr gan gymryd hoe. Nid wyf wedi

gweld yr hen lyfr ers blynyddoedd hir, ac nid wyf am ei weld, ond yr wyf yn berffaith sicr yn fy meddwl ei fod yn dal y byd i fyny o hyd. Tybed fod Atlas yn dechreu blino, ac mai dyna sydd yn cyfrif fod yr hen fyd yma yn mynd yn bendramwnwgl i rywle y dyddiau hyn. Bum yn tosturio drosto dro byd, ac ystyriwn Dduw yn angharedig am ei fod yn gadael y byd ar ysgwydd yr un un byth a beunydd. Nid oedd y rhai yna ond meddyliau plentyn, a rhai hynny gyda llaw yn ddigon plentynaidd. Esboniodd neb ystyr y llun i mi. Hwyrach eu bod hwy a minnau yn yr un cwch, pwy ŵyr? Credwn i gynt fod pob athro bron yn hollwybodol. Ni fedraf gredu'r degwm heddiw. Synnais droion argraffu rhagair neu BREFACE i lyfr (oherwydd Saesneg oedd ein llyfrau ni), a neb yn trafferthu ei ddarllain. Tybed a oes rhywun yn darllain y rhagair heddiw? Gwn na ddarllenai un plentyn y Preface, a'r unig gôf y sydd gennyf amdano yw ein bod yn arfer dweyd mai dyna oedd Preface—Police running every Friday after Charles Evans. Pe bawn yn byw yn Llanbedr yr adeg honno digon tebig y buaswn yn synnu na buasent wedi'i ddal.

Pwy ddydd daeth llyfr pictwrau, chwedl plant, i'm llaw ac o edrych arno gwelais mai llun cerfluniau enwog oedd ynddo. Wrth droi ei dudalennau teimlais fy hun a "chroen gwyddau" drosof. Bum ennyd cyn sylweddoli fy mod yn edrych ar fy hen ffrind. Yno yr oedd darlun o gerflun o Amgueddfa Genedlaethol Naples, ac Atlas o hyd a'r byd ar ei gefn. Er bod deng mlynedd ar hugain a rhagor wedi mynd, doi yr hen deimlad yn ôl, a minnau yn gorfod addef fy mod yn ofergoelus. Dechreuais holi'i hanes. REBEL ydoedd yn ôl yr hen draddodiad, a chosp Zeus arno am ei wrthryfel oedd iddo ddal y byd i fyny tua'r gorllewin. Syllais yn hir arno. Dyn mewn gwth o oedran ydoedd. Nid ar ei ben y safai'r byd ond ar ei ysgwydd. Tua'r gorllewin yr oedd gerddi ac afalau aur yn tyfu yno, ac un o orchwylion Hercwlff oedd ceisio y tri afal aur a aeth ar goll. Yr oedd yn orchwyl caled cyn y cofir amdano cyhyd, ond pe bai byw heddiw hwyrach y buasai ganddo orchwyl caletach—chwilio rhagor ohonynt am y gallasai erbyn hyn fod PUMP ar goll, pwy ŵyr?

Y mae Atlas yn teimlo'r pwysau gymaint nes bod ei ben ar dro ar yntau yn gorffwys ar ben ei lin.

Nid af i ar ôl hanes Atlas yn rhagor na dweyd mai *REBEL ydyw, gwr mewn gwth o oedran, yn cario'r byd ar ei ysgwydd ac nid ar ei ben, heb gymryd hoe rhag i rywun arall gael siawns. Nid wyf yn siwr na ddylaswn hefyd awgrymu ei fod yn byw tua'r gorllewin yng nghymdogaeth gardd lle ceir afalau aur.*

O gofio a ddwedais yn y rhifyn diweddaf am y RUNNER mai darlunio *types* o gymeriad yw fy amcan, na cheisied neb dadogi y darlun hwn i undyn byw. Digon gwir fod gan bob papur heddiw ei GROSS-WORD PUZZLE, ond nid puzzle mo'r erthygl hon er i neb

geisio adnabod Atlas. Y mae ym mhob eglwys, ac i fesur mwy neu lai ymhob dyn. Yn gyntaf gŵr mewn oed yw.

Perigl dyn wrth heneiddio yw credu na fedr neb ond ef wneud dim a'i wneud o dde. Plant yw pob un y sydd yn iau nag ef. O edrych ym myw llygaid Atlas yr wyf yn berffaith sicr ei fod yn credu na fedrai neb ond ef ddal y byd i fyny. Ewch drwy wahanol eglwysi a cheir fod yna nifer bach yn mynnu llywodraethu. Gofynwch iddynt a chewch ar ddeall mai hwy y sydd yn dal yr eglwys i fyny, a phan elwir hwy adref credant y bydd diwedd ar eglwys Dduw. Ni wn i a fedr pobl y sydd wedi croesi, ein gweld ni yma, gobeithio na fedrant, oherwydd credaf y bydd yn uffern i lawer Atlas weld yr eglwys yn mynd yn ei blaen lawn cystal ac efallai yn well na phan oeddent hwy yn ceisio ei dal i fyny.

Ni bydd raid ymgomio yn hir a neb mewn oedran cyn gweld cyfeiriad y gwynt. Y mae yn ddrwg gennyf ei ddweyd, ond gwendid ein heglwysi heddiw yw eu bod yn nwylo rhyw Atlas neu gilydd. Ar faes y chwarae, ac ar faes y gwaed yr ysbryd ifanc sydd yn gorchfygu. Nid oes neb a barch henaint a phrofiad yn fwy na mi, ond cyngor a chyfarwyddyd yw eu hawlfraint, ac nid mynnu fel Atlas i gario'r byd ar eu hysgwyddau. "Youth will be served," meddai'r papur newydd ym myd y chwarae, ac oni fedrir rhoi "eglwys y dyn ifanc hwnnw a groeshoeliwyd" gan Atlasiaid ei oes yng ngofal dynion ifanc, ofer yw. Y mae yn gâs gennyf Atlas, nid am ei fod yn hen—yr wyf i fy hun yn tynnu ymlaen—nid am fy mod yn dibrisio henaint a phrofiad ond oherwydd y mynn gario y byd fel Atlas ar ei gefn, ac yntau, ers llawer dydd a'i nerth wedi'i ostwng yn aros yn sigledig ar dal ei lin. Y mae yn byw tua'r gorllewin—ynghyfeiriad gardd yr afalau aur. O esbonio, chwedl pregethwr, y mae Atlas fynychaf yn ddyn ag arian. Yr wyf yn caru awgrym y cerflunydd—ar ysgwydd Atlas ac nid ar ei ben y mae y byd. Ni wel pawb yr awgrym heb ei ddangos.

Y mae byd o wahaniaeth rhwng pen ac ysgwydd.

Chwarae teg i Atlas y mae ysgwydd ardderchog ganddo, ond ar dro y mae'i ben. Y mae felly o hyd. Er cymaint a ddwed Iago am "Wŷr y fodrwy aur", fe dybiwn ni fod yn rhaid gosod eglwys Dduw ar ysgwydd Atlas byth a beunydd. Dyn bach a dweyd y goreu yw Atlas, a gorwedd ei nerth yn ei ysgwydd lydan gref, ac yn ei "runners". Nid yw y pen yn cyfrif cymaint. Y mae o'r ffordd yn fynych; ac ar waethaf pob Atlas, cymeriad ac nid cyfoeth a ddylasai lywodraethu yn eglwys Dduw.

Gwn cystal a nebun fod angen arian yn eglwys Dduw. Y mae i Atlas ei le yno ond iddo ei gadw. Maentumiaf nad oes dda na drwg mewn arian fel arian. Y ffordd y'u cesglir ac y'u defnyddir y sydd bwysig. Ni phryn arian ond cyfleu. Y mae i ysgwydd lydan gref Atlas)ei gwerth o'i hiawn ddefnyddio. Y drwg amdani y rhoir popeth ar yr ysgwydd. Y mae yna bethau y bwriadwyd

i ysgwydd eu cario ond nid Eglwys Dduw mo un ohonynt. Pe cawn i fy newis! nid ar ysgwydd Atlas y byddai un eglwys ond ar ben yr ifanc ac ar galon yr hen.

Y mae'r gair rebel yn swnio'n gryf, ond o ystyried y mae yn deg. Tuedd Atlas yw dwyn safonau a dulliau y byd i Eglwys Dduw. "Nid trechaf treisied, gwanna gwaedded" mo arwyddair crefydd. Yn y byd yn aml y mae dyn allan i gario, costied a gostio. Y mae Atlas oherwydd ei ysgwydd neu ei boced wedi arfer cael ei ffordd ei hun yn y byd. Medr ei hawlio a'i mynnu yn aml. Pan droir i Eglwys Dduw dylid ystyried rhywun heb Atlas. Nid "FI" na "mympwy" ond y goreu er lles yr Eglwys ac er dwyn teyrnas Dduw at ddynion. Medrwn nodi engraifft ar ôl engraifft lle y treisiwyd egwyddor a chroeshoeliwyd Crist er mwyn Atlas a chan Atlas. Dyna pam y'i galwaf yn Rebel a theilwng yw o'r enw.

Gynt gorfodwyd Atlas gan ZEUS i gario'r byd ar ei ysgwydd am iddo wrthryfela yn ei erbyn. Y mae felly heddiw. Y mae Duw yn ystyried Atlas yn "rebel" yn ei erbyn, a chaiff o hyd gario'r byd ar ei ysgwydd, ond ni olyga'r byd EGLWYS DDUW.

Erbyn heddiw nid oes wahaniaeth yn cael ei dynnu rhwng byd ac eglwys. Nid wyf yn sicr ein bod ar ein hennill. Credwn oherwydd ein geni ym Mhrydain ein bod yn Gristionogion. Y mae yn bryd i ni ddeffinio'n termau, a da gennyf ddeall fod y Gymdeithas Gymraeg eisoes yn dechreu symud er gwybod pwy sydd a hawl i fod yn aelod ohoni.

Boed felly; ond y mae mwy o eisiau pwysleisio egwyddor a chariad brawdol, a phe doi Duw a'i wyntyll yn ei law er glanhau ei lawr dyrnu, credaf y ceid gyda'r us bob rebel—pob Atlas—yn erbyn egwyddorion ei deyrnas ef, boed weinidog neu ddyn o'r byd yng ngwir ystyr y gair.

Rhwng Gwŷr Pentyrch a'i gilydd, ond y mae yr hen gâs oedd gennyf yn blentyn yn aros at Atlas o hyd, nid am ei fod yn gyfoethog, nac mewn oedran, nid yn gymaint am ei fod yn cario'r byd ar ei ysgwydd ond am ei fod yn REBEL a fynn ddwyn safonau iselaf y byd i eglwys Dduw ac a esyd i fyny yno i'w addoli nid Duw Cariad a Thad pawb oll, heb wahaniaeth gradd na chredo, ond ATLAS EI HUN.

N. a N.

Y GRAGEN WAG.

I DIR gwlad o'r gwaelodion—yn degan
Y dygwyd hi weithion,
Gragen wâg, organ eigion,
Digymar dêg em o'r don.

SARNICOL.

I DDIOLCH AM LESTRIAID O FEL.

PA fêl sy' mor rhagorol—a'r â geir
O gwch cyfaill siriol?
I degfan haf dwg fi'n ôl
Ar rosydd grug Ffostrasol.

SARNICOL.

Priodas.

Dydd Sadwrn, Mawrth 18, o flaen y Cofrestrydd a'r Parchn. David Evans a Dewi J. Jones, ymbriododd Mr. David Thomas, Pantffynnon â Miss Mary Anne Thomas, Llŷsfaen-isaf. Hir oes a llwyddiant iddynt.

Marwgofion.

Ar y 7fed o Chwefror, wedi cystudd hir a chaled bu farw Mary Anne Jones, Hafodwen Mill, Cribin, yn 50 oed. Collodd ei hiechyd ers rhai misoedd, ac yn yr wythnosau diweddaf dioddefodd boenau a gwendid mawr. Un addfwyn ei hyspryd ydoedd, ac yn ofalus am ei chartref. Cafodd bob tiriondeb hyd eithaf eu gallu gartref hyd ei dydd olaf. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'r priod a'r plant yn eu trallod a'u hiraeth. Claddwyd hi dydd Iau canlynol, yng Nghribin. Anghyoedd oedd yr angladd. Gwasanaethwyd yn y tŷ cyn cychwyn gan y Parch. David Evans, ac ar lan y bedd gan y Parch. Dewi J. Jones.

Ddydd Mawrth, Chwefror 21, bu farw Mr. Evan Lewis (Ieuan Ebrill), Trefilia, Aberystwyth, yn 78 mlwydd oed ar ôl byr gystudd. Wyr ydoedd i'r Parch. Evan Lewis, Cilgwyn, a brodor o Drefechan, Aberystwyth. Cyfrifydd oedd wrth ei alwedigaeth, a bu'n gweithio mewn swyddfeydd yng Nghaerdydd, Merthyr Tydfil, Y Drefnewydd, Llanelli ac Aberystwyth. Ni fu erioed yn briod, a phreswyliai gyda'i ddwy chwaer hyd yn ddiweddar. Ergyd drom iddo oedd eu colli. Sgrifennai ryddiaith a barddoniaeth yn ei oriau hamdden. Tlos iawn oedd ei lawysgrifen. Fe gyhoeddwyd cyfrol o'i farddoniaeth tua un flynedd ar bymtheg ar hugain yn ôl dan yr enw "Telyn Ceredigion"; ynddo ceir cyfieithiad o "Highland Morn" Robert Burns. Yr oedd wedi paratoi dau lyfr arall, sef un Saesneg ar "Hen Gymeriadau Aberystwyth" a "Chaneuon Hamdden" yn y ddwy iaith. Hefyd sgrifennodd dipyn o hanes ei dadcu, y Parch. Evan Lewis, yn Saesneg, a chyfieithais ef iddo gan nad oedd ei iechyd yn hwylus ar y pryd. Rhoddodd lyfr imi am wneud hynny. Fe'i cyhoeddwyd yn y cylchgrawn hwn, ac ar ôl i'r gyfres o erthyglau oll ymddangos, fe aeth a'r rhifynnau i'w rhwymo, gan orchymyn i'r rhwymydd nodi enw ei dadcu ar y clawr. Hynny a wnaed mewn llythrennau melyn ar ochr y llyfr. Treuliais lawer awr yn ei gwmni diddan. Enillodd luaws o gyfeillion. 'Roedd yn bur optimistig a charedig, ac yn *fundamentalist* i'r carn. Gwyddai dipyn o hanes Islwyn a sgrifennodd erthygl amdano i bapur dyddiol Caerdydd. Cyfaill arall iddo oedd Mr. Cadifor Samuel, Llanelli. Fe'i claddwyd ym mynwent Aberystwyth ar y dydd Iau canlynol i'w farwolaeth, y Parch. Dan Evans, B.A., gweinidog eglwys M.C. Shiloh, o ba un ydoedd yn aelod, yn gweinyddu. Daeth nifer o berthnasau a chyfeillion ynghyd i dalu'r gymwynas olaf. Mae ei fedd yn ymyl un Dewi o Geredigion. Wele emyn a gyfansoddodd :—

'Does arnaf ddim c'wilydd cyffesu
Y Gŵr a fu'n chwysu'n yr ardd ;
Er cymaint mae dynion yn wawdio
'Rwyf fi yn ei weled yn hardd.
O'r carchar mi gefais ollyngdod,
Nid aiff y diwrnod o'm co' ;
Clod iddo medd f'enaid drwy'r holl fyd—
Mi gafodd fy mywyd i, do.

Mae ei awen wedi toddi yn yr Ysbryd Mawr Dwyfol erbyn hyn. Nis gellir ei anghofio. Darnau anfarwol yw "The Faithful Friend" a "She is an angel I declare" yn y "Caneuon Hamdden".—(*Ei gyfaill J.D.*).

Chwefror 27ain bu farw Mrs. E. Chard, 9, Bwllfa Row, Cwmdâr, yn 61 oed. Rhai blynyddoedd yn ôl cafodd ei tharo gan "partial paralysis", a chollodd ei gallu i siarad, er ei bod yn alluog i gerdded yn araf iawn ar bwys ei ffon. Hyd ei gallu, bu yn ffyddlon yn yr H.D.C. ac ni theimlai neb fwy o ddiddordeb yn yr achos na hi, er na chafodd fawr mantais i ddangos hynny y blynyddoedd diwethaf hyn. Cyflwynwyd i'w phriod a'r plant ein cydymdeimlad dwysaf yn eu colled a'i gofid. Claddwyd dydd Iau, Mawrth 2, yn y gladdfa gyhoeddus, a gwasanaethwyd gan y Parch. E. R. Dennis.

Chwefror 27, Mrs. Mary Jane Dance, 7, Cowley Road, Oxford, yn 66 oed. Claddwyd yr Iau dilynol yng nghladdfa gyhoeddus Rosehill, y tuallan i'r dref, pryd y cafodd angladd neillduol o barchus. Dywedir fod tua 30 o blethdorchau yn cuddio ei bedd. Merch ydoedd i'r diweddar Thomas a Martha Evans a drigent yn Alltyrodyn Arms, Llandysul. Collodd ei rhieni pan yn ieuanc iawn ac wedi eu colli hwy cafodd gartref gyda pherthynasau iddi sef y diweddar Mr. a Mrs. James Jones, Gelligron—rhieni Mrs. Jones, Old Shop, Rhydowen, heddiw—lle y cafodd bob ymgeledd. Hyd y diwedd edrychai hi a Mrs. Jones, y Siop ar eu gilydd fel dwy chwaer. Er yn byw yn Oxford ers blynyddoedd lawer deuai'n bur fynych i'r hen ardal am wyliau ac arosai'n ddieithriad yn y Siop Uchaf. Cofiwn am dani'n dod yn fenyw gymharol ieuanc yn llawn bywyd ac egni ond y blynyddoedd diweddaf deuai'n fethedig (*invalid*) ac mewn "*Bath chair*" yn unig y gallasai fynd ychydig o gwmpas. Ar waethaf ei heiddilwch a'r hyn a ddioddefodd yr oedd bob amser yn ysprydol a siriol, a hoffai gwmni ac ymgom yn fawr iawn. Yr oedd iddi gyfeillion lawer yn yr hên ardal ac mae'n chwithdod gan y cyfryw i feddwl na chânt y fraint o'i chwmni eto. Cydymdeimlir yn fawr a'i phriod. Bu ef yn garedig rhyfeddol wrthi drwy'r afiechyd i gyd. Nid oedd dim yn ormod ganddo er ei mwyn hi. Cydymdeimlir hefyd â Mrs. Jones, Y Siop, a'i merch, canys yr oedd yn annwyl iawn ganddynt. Ymaelododd yn gynnar ym Mhantydefaid, ac arosodd yn aelod yno hyd derfyn yr yrfa.

Bore Llun, Ebrill 3, ar ôl cystudd byr, Hannah, annwyl briod Evan Jones, Caebach, Pontshaen, yn 63 oed. Merch ydoedd i'r diweddar Samuel a Mary Thomas (Sam Gweydd), Rhydowen. Yr oedd yn un o deulu gweddol luosog. Erbyn heddiw dwy chwaer yn unig sy'n aros. Pan yn fenyw ieuanc yr oedd yn weithwraig ddiwyd—yn y tŷ a thuallan i'r tŷ. Yr oedd mor gartrefol yn yr ardd ac ar yr aelwyd a'i hawydd mawr oedd gwneud y cartref yn lle cysurus i'w phriod a'i theulu. Ers blynyddoedd bellach yr oedd wedi ei chaethiwo i'r cornel i raddau pell a rhaid oedd cadw'r ferch gartref i gyflawni goruchwylion yr aelwyd. Er hynny hi fuasai'n trefnu: ei rhaglen hi gerid allan ac i'r teulu yr oedd ei gair hi'n ddeddf am y teimlent fod ei chynlluniau a'i threfniadau hi bob amser yn ddoeth ac i bwrpas. Faint o bobl felly sy'n y byd? Pobl sy'n rhy lesg i weithio fel ereill ond pobl ag y mae eu presenoldeb a'u dylanwad yn fendith i ereill; fe'u ceir ar lawer aelwyd ac mewn llawer i Eglwys. Os mae cadair gornel i raddau pell oedd ei heiddo hi fe'i llanwodd hyd yr ymylon. Yr oedd yn fenyw a meddwl ei hun ganddi; medrai aros uwchben mater o bwys a mynnu ei ddeall. Ei hawydd mawr bob cam oedd gwneud ei rhan i'w theulu ac nid digon ganddi fagu ei phlant ei hun; rhaid oedd bod yn fam i ddau ŵyr ag oedd wedi eu gadael yn amddifaid. Gadawodd briod, pedwar o blant, wyres, dwy chwaer a llawer o berthynasau ereill i wylo ei cholli. Claddwyd y Mercher dilynol ym Mhantydefaid. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins a Mr. J. Marles Thomas.

Dydd Gwener, Mawrth 24ain, bu farw Mrs. Myfanwy Davies, priod Mr. D. R. Davies, 7, Cledwyn Terrace, Trecynon, yn 41 oed. Canolig iawn fu iechyd Mrs. Davies ers misoedd, ond er hyn ni freuddwydiodd neb ohonom fod y diwedd mor agos, ac

anodd ydyw sylweddoli ei bod hi wedi ymadael a ni. Bu hi yn un o'r ffyddloniaid, ac er yn ifanc iawn yn un o weithwyr gorau'r eglwys. Ni elai dim ymlaen o fudd i'r achos na fyddai hi yn cymryd rhan ynddo. Yr oedd ganddi barch diffuant i bethau cysegredig bywyd a chaffai yr Hen Dy Cwrdd y lle blaenaf ganddi bob amser. Cymrodd ran bron ymhob agwedd o waith yr eglwys,—yn adrodd a chanu pan yn blentyn; bu yn ysgrifenyddes trysorfa'r bechgyn yn amser y Rhyfel; y Gymanfa Ganu S.E.W. ac Urdd y Benywod. Yr oedd hi yn aelod hefyd o Gwmni Drama Trecynon, ac wedi bod yn weithgar a selog ymhob adran o'r gwaith hyd nes i afiechyd a llesgedd ei gorfodi hi i ildio. Anodd iawn fydd llanw ei lle, ac fe welir ei heisiau mewn llawer cyfeiriad. Ni fu neb yn barotach ei chymwynas a'i help i unrhyw un mewn angen, a thuag at unrhyw fudiad da. Mae hiraeth dwys mewn llawer cylch ar ei hôl a dangosodd y dyrfa luosog a ddaeth i'w hangladd eu hedmygedd o honi. Estynwn i'w phriod a'i merch, ac hefyd i'w brawd a'r perthynasau ein cydymdeimlad llwyraf yn eu tristwch a'u hiraeth ar ôl un mor annwyl ac hynaws. Claddwyd dydd Mawrth 28ain, yn y gladdfa gyhoeddus a gwasanaethwyd gan y Parchn. A. Jones (B), V. M. K. James ac E. R. Dennis.

"Say not Good Night, but in some
brighter clime
Bid me Good Morning."

Nodion yr Eglwysi.

CRIBIN.—Ar brynhawn Gwener, y 10fed o Fawrth, cafwyd gwledd o dê dan nawdd Urdd y Benywod. Rhoddwyd y tê gan y Parch. David Evans, Cwmiago. Amcan y tê oedd cael *funds* i Urdd y Benywod, ond cafodd y plant ef yn rhad. Teimlwn yn ddiolchgar i'r cyn-weinidog am ei garedigrwydd am gofio plant y Cribin fel hyn. Yn yr hwyr cynhaliwyd cyngerdd cystadleuol, a bu llawer o blant y Cribin yn adrodd a chanu. Yn absenoldeb Mr. Evans, llywyddwyd gan Mr. Evan Davies, Frondeg, ac arweiniwyd gan y Gweinidog. Beirniaid am y noson oedd Mr. J. Marsden a Mr. D. T. Williams, C.M. Diolchwyd i Mr. Evans ac i'r beirniaid am eu gwasanaeth gan Mrs. Marsden, ac eiliwyd gan Mrs. Jones, Frongelyn. Diolchodd y Gweinidog hefyd i bawb a gymerodd ran.

CAPEL - Y - BRYN.— Treuliodd Urdd y Benywod dymor hapus a defnyddiol dan lywyddiaeth Mrs. Davies, Esger, yr hon a lanwodd y swydd mewn modd brwdfrydig a derbyniol iawn. Yn ychwanegol at y cyrddau rheolaidd cafwyd tri cwrdd arbennig, a'r olaf o honynt i ddiweddu y tymor ar y 22 o Fawrth. Yn y cyrddau hyn gwelwyd rhai ymwelwyr a thrwy garedigrwydd rhai o'r boneddigesau cafwyd gwledd yn ogystal a chyfeillach wresog. Y rhai fu yn gyfrifol am danynt yn ystod y tymor oedd Mrs. Davies, Esger; Mrs. Evans, Porthway; Mrs. Jenkins, Tancoed; Mrs. Jones, Brynllefrith; Mrs. Jones, Tanralltgoch; Miss Davies, Y Felin; Mrs. Jones, Bryngranod a Mrs. Davies, Troed-y-rhiw. Priodol sylwi fod bron popeth, ag eithrio'r tê a siwgr, a osodwyd ar y byrddau o waith gartref.

CAPEL-Y-BRYN.—Tan ewyllys y diweddar Mr. D. Martin Jones, Gwion Castle, gadawyd i Gapel-y-Bryn y swm o gan punt, i'w thalu i'r ymddiriedolwyr ar ôl dydd ei weddw a'i ddwy nith, er yn gyntaf gofalu am gladdfa y teulu yn y lle, ac ar ôl hynny i'r treuliau cyffredinol. Gadawodd y diweddar Mr. Rees James, Y Felin, yn ei ewyllys y swm o £80 i'r Capel: yr incwm i'w ddefnyddio i ychwanegu cyflog y gweinidog.

CAPEL-Y-CWM.—Mrs. Thomas, Tyngrug-isaf, oedd llywydd Urdd y Benywod am y tymor diweddaf; ac fe'i terfynwyd yn hapus iawn ar y 29ain o Fawrth. Rhoddodd Mrs.

Thomas wledd ardderchog ar yr achlysur, a daeth yr aelodau yno yn gryno i'w mwynhau. Yr oedd yno gynrychiolaeth o Alltyplaca a Chapel-y-Groes—ac yn eu plith y Parch. Dewi J. Jones a Miss Evans, Ffynonfair. Dangosodd Miss Evans y ffordd i wneud "Trifle", ac awgrymiadol y ffaith fod sylweddoldeb hwn yn ymddibynu ar fod iddo sail rymus ac o gael hynny gellir defnyddio mân bethau distadl: a'u gwneud yn ddysgl gymeradwy. Sylwyd hefyd mai mwy derbyniol y "Trifle" o gael ychydig "ornamentation" ar yr wyneb. Felly sail dda ac wyneb derbyniol yw "secret" hwn fel "secret" llawer peth arall.

PANTYDEFAID.—Ddydd Gwener, Ebrill 21ain, bu Gwyl Dê Flynyddol yr Ysgol Sul. Rhoddwyd hi eleni gan deulu caredig Pantiorlech. Bu cyngerdd hwylus yn yr hwyr—Mr. John Davies, Pantiorlech yn y gadair, a Mr. J. Morgan James, C.M., yn arwain. Er bod pum mlynedd ar hugain wedi treiglo, a "llawer tro ar fyd" er pan roddodd Mr. a Mrs. Davies wledd gyffelyb o'r blaen, ni allwn lai na gobeithio y cawn gyfle i ddiolch iddynt eto ymhen pum mlynedd ar hugain arall! Derbynied yr "hen fobol" parchus ein diolchgarwch gwresocaf trwy gyfrwng YR YMOFYNNYDD, a boed iddynt hwyrddydd tawel,hapus, yng nghwmni "Morgan".

Y GWALLT GWYN.

"O! RWY'N caru gwallt fel eira,"
Ebe'r dlôs ddinam.
"Pan yn hên, gâf finnau, Dada,
Wallt fel Mam?"

Tynnu'm llaw drwy'r sidan mwynaidd
Gwyliwn innau'n fud;
Cofiwn am ei dlysni euraidd
Ennyd drud.

Peraidd dy anwybod heno,
Flodyn llawn o swyn!
Beth pe gwyddit bris y lliwio!
—Ngeneth fwyn?

Cyf. N.S.D.

DY DAD A WYR.

NIS gwn pa beth gan amser ddaw,
Gadawaf, Arglwydd, hynny i Ti;
Erfyniaf hyn oddiar dy law,
Yr hyn nas gwelaf, dysg i mi.

Yr hyn nas gwelaf, beth a wnaf?
Yng nghudd dy wersi ymhob man,
Dy neges orau'n fwyn a gaf
A sain Dy lais i gryf a gwan.

O awr i awr, o ddydd i ddydd,
Fe ddygaf atat ti fy nghri—
Maddeugar gariad Iôr a rydd
Yr hyn nas gwelaf, Dysg i mi.

(*Efcl.*) DAVID HUGHES,
Maesffynnon-oer.

Y GLOWR.

GERLLAW'R hen fan y'm ganed,
Flynyddau maith cyn hyn,
O dan y golau leuad
Disgleiria'r ffordd yn wyn;

A minnau obry'n isel,
Mewn lludded gyda'r llu,
Lle ni ddaw golau leuad
Ar ffyrdd y dyfnder du.

Tyllhuan sydd yn hedeg
O gylch yn ol a blaen,
A chadno sydd yn cyfarth
Wrth odre Allt-y-Maen;

A'r neb sydd heno'n cerdded
Y ffordd a gerddais gynt
Cyn dydd wrth olau leuad
O dref ar ynfyd hynt.

Gwrandawed su o'r glasfrwyn
Yng nghwr y waun a daw,—
Fy enaid sy'n dychwelyd
I'r bwthyn bychan draw.

SARNICOL.

J. D. Lewis, Argraffwyr, &c., Gwasg Gomer, Llandysul.

FOUR GOOD BOOKS.

The Unitarian Heritage.
(The most complete history of the Unitarian Movement) by Earl Morse Wilbur. ... ... **7/6** or by Post 8/-.

Judaism in the New Testament Period.
By R. Travers Herford, B.A. ... **4/6** or by Post 4/10.

The King who was Thirsty.
(Thirty-four Talks to Girls and Boys), by Bertram Lister, M.A. **2/6** or by Post 2/9.

Be Comforted.
An Anthology of consolation for those in sorrow. Edited by W. E. George, M.A. ... ... **1/6** or by Post 1/8.

THE LINDSEY PRESS, ESSEX HALL BOOKROOM,
5, Essex Street, Strand, London, W.C. 2.



JOHN E. JONES

(CERTIFICATED)

JEWELLER, SILVER-SMITH and OPTICIAN,

1, Wind St.,
Llandyssul.

YR YMOFYNNYDD.

RHESTR GYFLAWN o'r Ymofynnydd ar werth, yn cynnwys y blynyddoedd canlynol. Derbynnir y cynnyg uwchaf.

1847, 1848, 1849, 1850, 1851, 1852, 1853, 1854, 1859–60–61, 1862–65, 1868–70, 1871–73, 1874–76, 1877, 1878, 1882, 1883–85, 1886, 1888, 1889–91, 1892–94 1895–97, 1898–1900, 1901–1903, 1904, 1905, 1906, 1907, 1908, 1911, 1912, 1913, 1914, 1915, 1916, 1917, 1918, 1920, 1921, 1924, 1925, 1927, 1928, 1929, 1930, 1931; cynnwysa un Gyfrol 1847–48–49, 1850–51, 1852–53–54.

Anfoner at Mrs. THOMAS, AWELON, LLANDYSUL.

OS YDYCH AM RODDI . .

Anrheg am Ffyddlondeb i'r Ysgol Su

. . A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

'PERLAU MOLIANT'

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

: : J. D. LEWIS, : :

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.